# Cyngor Cymuned Llanddoged a Maenan
# Llanddoged and Maenan Community Council

DELYTH M. ALGIERI
Clerc

Ffôn (01492)642183

Bryn Dedwydd
Penrhiw,
Llanddoged.
Llanrwst.
LL26 0BZ

E.Bost clerk@llanddoged-maenan.org.uk

****************************************************************************************

12/05/2024

Annwyl Syr/Fadam,

Cynhelir cyfarfod yn **Ysgol Gynradd Llanddoged** , **Nos Lun 20ain Mai, 2024** am **7.30** o'r gloch i ystyried y materion a ganlyn:-

- Ymddiheuriadau.
- Cadarnahu cofnodion o'r cyfarfod diwethaf 29ain Ebrill, 2024
- Materion yn codi o'r cofnodion
- Cynllunio Cyfeirnod: 0/51685 - Ymgeisydd: Mr Gavin Anders -Ystafell swyddfa yn yr ardd Safle: Isfryn Llanrwst Road Maenan Llanrwst LL26 0YR .
- Cynnal a Chadw
- Unrhyw Fater Arall

Yn gywir

Delyth Algieri(Clerc)

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD YN NEUADD YSGOL GYNRADD LLANDDOGED, NOS LUN, 29 Ebrill 2024**

**1**

1. 1 **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod.

1.2**PRESENNOL**

Cyng. Alun Morris(AM (Cadeirydd), Cyng. John Owen(JO), Cyng. Anwen Jones(AJ), Cyng Nerys Dobson(ND), Cyng. Hefin Martin(HM), Delyth Algieri (clerc).
Cyng Nia Owen(Cynghorydd Sir)(NO), Cyng Aaron Wynne(Cynghorydd Sir)(AW)

1.3 **YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Eifion Williams(EW), Cyng. Arwel Ll Jones(ALJ)

2. **CADARNHAU'R COFNODION Mawrth 18fed, 2024**

Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan (ND) ac eilwyd gan ( AJ).

3.**MATERION YN CODI O'R CYFARFOD DIWETHAF**

3.1 Cynnal a Chadw

Y clerc i gysylltu gydag Emyr Jones Adran Priffyrdd ynglŷn â rhai materion cynnal a chadw sydd angen sylw o'r cyfarfod diwethaf.

4.**CYMERADWYO CYFRIFON Y CYNGOR SY'N DIWEDDU MAWRTH 31ain 2024**

Nododd y clerc fod y cyfrifon y cyngor wedi cael ei harchwilio gan yr archwiliwr mewnol sef y Cyfrifydd Iona Edwards, Llanrwst ac maent wedi cael eu canfod yn gywir.
Cymeradwyodd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau'r cyfrifon sydd yn diweddu 31ain Mawrth 2024. Rhannwyd mantolen cyfrifon y cyngor i aelodau'r cyngor ac arwyddodd y Cadeirydd a'r Clerc y cyfrifon. Bydd y cyfrifon yn cael eu hanfon ymlaen i'r archwilwyr allanol 'Archwilio Cymru' Caerdydd.

**5 CYNLLUNIO**

Cyfeirnod: 0/51631 Christopher McLaren -Ychwanegu paneli solar i'r goleddf to sy'n wynebu'r de orllewin yn Neuadd Maenan (Caniatâd Adeilad Rhestredig) Maenan Hall, Llanrwst Road, Maenan, Llanrwst, Conwy, LL26 0UL..
Trafodwyd y cais cynllunio a phasiwyd aelodau'r cyngor drwy godi eu dwylo i gadarnhau fod dim gwrthwynebiad i'r cais.

**6. CEISIADAU AR GYFER Y GRANT CRONFA FFYNIANT CYFFREDIN Y DU' CONWY**

Cadarnhaodd y clerc fod y cam cyntaf o'r gwaith y grant wedi cael ei gwblhau a bod y maes parcio Cegin Wen wedi cael ei ail-wynebu gan C.T. Roberts Plant Hire Ltd, Llanrwst. Y clerc wedi talu C.T. Roberts am y gwaith ac wedi cwblhau'r ffurflenni priodol i hawlio'r arian grant yn ôl gan y Gronfa UKSPF Y cam nesaf o'r cais grant fydd yr arwydd i'r maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

**7 POLISÏAU**

Cymeradwyodd a mabwysiadwyd y Cyngor polisïau 'Rheoliadau Ariannol , Rheoliadau Sefydlog' 2024/25.ac Asesiad Risg. Arwyddodd y Cadeirydd y polisïau.

**8. CYNNAL A CHADW**

8.1 Nifer o dyllau yn y ffordd Fron Francis, Llanddoged.
8.2 Angen cysylltu gydag Emyr Jones, Adran Priffyrdd ynglŷn â thyllau yn y ffordd Bryn Saith, Llanddoged.
8.3 Twll yn y ffordd wrth yr Eglwys, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
8.4 Twll wrth y grid yn ymyl Wern, Ffordd Efail Uchaf, Llanddoged.
8.5 Grid/Draen wedi blocio rhwng Dryll Melyn a Thyddyn Mali, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
8.6 Clawdd yn tyfu i'r ffordd Troed y Rhiw, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.

**9. UNRHYW FATER ARALL**

9.1 Derbyniwyd e-bost - pryder am dyfiant 'Japanese Knotweed' sydd yn tyfu yng Nghae Chwarae Cae Cetyn, Ffordd Trwyn Swch, Llanddoged.
Cadarnhaodd Cyng. Nia Owen ei bod hi am drafod y mater yma gyda swyddogion Sir Conwy.
9.2 Derbyniwyd cais i gael caniatâd i gynnal noson gymunedol i godi arian ar gae Chwarae Cae Cetyn .
Cyng. Nia Owen a Chyng Aaron Wynne am holi'r Cyngor Sir Conwy at bwy y dylen gael ei cyferio i gael y caniatâd i gynnal y noson yng Nghae Cetyn.